
# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

## Mawrth 2023 – Cyfrol 8– Rhifyn 6






## Haelioni di-ben-draw




CROHN'S & COLITIS UK

Unwaith eto, dangosodd trigolion Llandyrnog a'r cylch eu haelioni arbennig. Llogwyd yr Ystafelloedd Coco fore dydd Sadwrn, 11 Chwefror i gasglu cyfraniadau at apêl DEC ar gyfer daeargryn Twrci a Syria, trwy law Achub y Plant. Codwyd £1735 yn ystod y bore, a £2100 oedd y cyfanswm terfynol a anfonwyd at Achub y Plant.

Bythefnos yn ddiweddarach, codwyd bore coffi yn neuadd y pentre i godi arian at Crohn's & Colitis ac i godi ymwybyddiaeth o glefydau llidus y coluddyn – *inflammatory bowel diseases*. Codwyd £513 – ymateb gwych.

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd.

**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth nôl eich copi o'r *Llais* o swyddfa'r post, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

# Pytiau newyddion y pentre

**Dymuniadau da** i Mair, Moelfre a John Huw, ar ddathlu penblwyddi arbennig. Hefyd i Ruth Griffith, John Ashton ac Iona Salisbury am wellhad buan.

**Cydymdeimlwn** â theulu'r ddiweddar Janet Evans – yr olaf o deulu Lloyd Llandyrnog. Roedd hi'n ferch i Jack a Blodwen Lloyd ac yn chwaer i Ken, Dennis, John, Glenys and Sian. Hefyd cydymdeimlwn â theulu Helga Norbury, gynt o Barc Ty'n Llan.

Llongyfarchiadau i...

...Lynn Jones, Berth Glyd a Phil Ethell ar enedigaeth eu hwyres, Lily Grace. Mae hi'n ferch i'w mab, Ryan, a'i bartner Emma, ac yn chwaer fach i Liam, Isaac ac Isla.

...Neil Jones ar ei ddyrchafiad yn is-gyrnol y Cymry Brenhinol – camp arbennig, gan iddo godi drwy'r rhengoedd ar ôl ymuno â'r gatrawd yn 17 oed.



...Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych ar yr enwebiad yng ngwobrau Addysg Cerddoriaeth a Drama 2023. Enwebwyd eu sioe Gwnewch Sŵn! yn y categori menter gerddorol eithriadol. Aeth Heather Powell, pennaeth y gwasanaeth ac aelodau eraill o'r tîm i'r seremoni wobrwyo yn Llundain. Er na fuon nhw'n llwyddiannus, roedd cael eu henwebu yn anrhydedd, yn sicr.

Mae Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych hefyd wedi cefnogi Côr Nantclwyd drwy brynu piano newydd iddo ar gyfer ei ymarferion yn neuadd y pentre.






# Hyfforddiant digidol

Bydd hyfforddwr o Gymunedau Digidol Cymru yn dod i roi dwy sesiwn am ddim yn yr Ystafell Coco, ddydd Llun 3 Ebrill.

‘Cyflwyniad i’r rhyngrwyd’ fydd y sesiwn a fydd yn trafod materion cyrchu a diogelwch ac rwy’n siŵr y bydd yn ddiddorol.

Bydd yr hyfforddwr yn dod â dyfeisiau i’r rheini sydd heb yr un a bydd yn anffurfiol iawn.

Bydd y sesiwn gyntaf o 3 tan 5 y pnawn, a’r ail o 6 tan 8 fin nos, a lle i 12 ar bob sesiwn. Mi ddof i â’r bisgedi!

Rwy wedi cadw lle i’r rheini sydd eisoes ar fy rhestr i. I gadw lle, anfonwch e-bost ata i: Janeborthwick56@gmail.com.

Diolch,
Y Cynghorydd Jane Borthwick




Mae’r Bws Benthyg hefyd ym maes parcio’r Co-op yn Rhuthun ar fore dydd Gwener.

## Oriau agor Swyddfa’r Post

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**

**9am–12pm, 2pm–5pm**

**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 6ed | Trefoil Guild 2pm |
| Mawrth | 7fed | Clwb Llyfrau 10am |
| Mercher | 8fed | Undeb y Mamau 2pm |
| Mercher | 15fed | Tuesday Club 2pm |
| Mawrth | 21ain | Clwb Llyfrau 10am |

*I logi’r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 6ed | Brownies 5.30 – 7pm<br>Côr 7.30 – 9.30pm |
| Mawrth | 7fed | Sefydliad y Merched 7.00 – 9.0pm |
| Mercher | 8fed | Cyfarfod pwyllgor y sioe flodau, 7pm |
| Sul | 12fed | Llan Llanast 3.30 – 5pm |
| Llun | 13eg | Brownies 5.30 – 7pm<br>Côr 7.30 – 9.30pm |
| Mercher | 15fed | Y Gymdeithas Hanes 7.30pm |
| Gwener | 17eg | Cyfarfod clwb merlod 7pm |
| Llun | 20fed | Côr 7.30 – 9.30pm |
| Llun | 27ain | Brownies 5.30 – 7pm<br>Côr 7.30 – 9.30pm |
| Mercher | 29ain | Cyfarfod pwyllgor y Gymdeithas Hanes |

*I logi Neuadd y Pentre, ffoniwch Mrs Wyn Wilson ar 01824 790447.*

## Gwasanaethau mis Mawrth yn Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 5ed | 11.15 | Cymun bendigaid |
| 12fed | 11.15 | Boreol weddi |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 19eg | 11.15 | Boreol weddi |
| 26ain | 11.15 | Cymun bendigaid |

# Hwyl fawr gan Jimmy



Helô ffrindiau,

Gyda chalon drom ond â phen clir, rwyf wedi ymddiswyddo fel rheolwr y clwb pêl-droed.

Mae Llandyrnog United wedi bod yn rhan anferth o fy mywyd i erioed, ers gwylio timau gwych yn y 90au, wedyn i'n gwylio ni'n cael ein dyrchafu i'r Cymru Alliance, ymwneud â'r clwb yn aelod o'r ail dîm, ac yn y pen draw, cyrraedd y swydd roeddwn i'n teimlo 'mod i'n ei haeddu – rheolwr y tîm cyntaf.

Ar hyd y blynyddoedd dwi wedi aberthu gormod o lawer: dwi wedi methu priodasau, bedyddiadau a sawl parti a digwyddiadau gan ffrindiau ac anwyliaid. Gan fod gen i fy nheulu i fy hun nawr, dwi wedi sylweddoli fy mod i'n aberthu gormod ac mae'n rhaid i mi roi blaenoriaeth iddyn nhw. Bedwar diwrnod yr wythnos, dwi ar astro Llandyrnog, i'r tîm cyntaf neu'n hyfforddi plant, ac wedyn yn ystod yr haf, dwi'n rheoli tîm cynghrair yr haf. Dydy hi ddim yn deg ar fy anwyliaid.

Mae gormod o lawer o bobl i ddiolch iddyn nhw'n unigol, ond i bawb sydd wedi ymwneud â rhedeg y clwb, rhedeg y Goldie, ac i'r rheini sydd wedi gweithio gyda fi, wedi chwarae i fi, ac wedi fy nghefnogi i ar hyd y daith, mae hi wedi bod yn fraint ac yn blesur pur.

Fy neges olaf i'r pwyllgor, yr hyfforddwyr a'r chwaraewyr yw: daliwch ati i wneud eich gorau glas. Mae'r clwb yn haeddu ymdrech 100% gan bawb, neu bydd ein holl waith dros y blynyddoedd wedi bod yn ofer.

Does neb yn fwy na'r clwb. Ein gwaith ni yw gwarchod y clwb. Gofalwch amdano.

Diolch,

Jimmy McNally.

*Diolch o galon i ti Jimmy, am dy ymroddiad i'r clwb ar hyd y blynyddoedd.*

LLAN Llanast

Yng nghyfarfod mis Chwefror, dysgom ni am Ŵyl Fair y Canhwyllau, pan aeth Mair a Joseph ag Iesu i'r deml, a Simeon yn disgrifio Iesu fel 'goleuni'r byd'. Gwnaethom ni lawer o waith crefft yn ymwneud â golau: goleudai, ffenestri gwydrau lliw, lanterni trwy ddefnyddio jariau jam, cacennau canhwyllau, canhwyllau ac un gannwyll fawr iawn er mwyn rhoi ein henwau arni. Croeso i bawb i'r sesiwn nesaf fydd ar 12 Mawrth am 3.30 yn y Neuadd. Cofiwch fod rhaid i oedolyn ddod gyda phlentyn.




**Prompt Travel**

**Taxi & Private Hire**

**4, 8 & 16-seat vehicles**
**24 hrs 7 days a week**

Incorporating Vale Private Hire

**01824 790485**
**07974 862027**

**Teithiau Prydlon**

**Tacsi a Hurio Preifat**

# “Cefnogwr Wrecsam hyd ddiwedd fy oes”

Am adeg i fod yn gefnogwr Wrecsam! Ar ôl 15 mlynedd hir a phoenus, roedd hi’n ymddangos na fyddai Wrecsam byth yn dychwelyd i’r gynghrair bêl-droed. Ond rŵan, mae gennym ni ddechrau newydd a gobaith newydd.

Yn ôl yn 2020, a minnau’n aelod o’r WST (Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Wrecsam), cefais e-bost gan y pwyllgor yn hysbysu’r aelodau fod gennym ddarpar fuddsoddwyr ar gyfer y clwb. Ar ôl sawl cyfarfod poenus yn y gorffennol gyda buddsoddwyr ‘addas a phriodol’, roedd llawer ohonom yn amheus, yn naturiol. Ond roedd hyn yn teimlo’n wahanol. Ar ôl pleidlais ysgubol i wrando ar fanylion y darpar fuddsoddiad, cyhoeddwyd enwau’r ddau fuddsoddwr posib. Dychmygwch fy syndod pan ddatgelwyd mai sêr Hollywood, Ryan Reynolds a Rob McElhenny, oedd y bobl ddirgel a oedd am fuddsoddi yn y clwb.



Ac o fewn wythnosau roeddwn i (hogyn lleol o Landyrnog) ar alwad Zoom gyda’n perchnogion enwog newydd. Doedd pinsio fy hun ddim yn ddigon, roeddwn i’n methu credu’r peth: ‘Ydy hyn yn digwydd mewn gwirionedd neu a ydw i’n mynd i ddeffro o freuddwyd? Siawns nad ydy’r math hwn o beth yn digwydd i Wrecsam. Neu a ydy o?’ Ond fe wnaeth, ac mewn dwy flynedd a hanner mae hi’n anodd iawn disgrifio pa mor bell rydyn ni wedi dod mewn cyfnod mor fach o amser.

Allwn i fyth, neu fyddwn i fyth, wedi meiddio credu faint fyddai ein trawsnewidiad. Mae’r torfeydd wedi cynyddu o ddwy neu dair mil i dyrfaoedd o ddeng mil a phob tocyn wedi’i werthu. Cymaint yw’r galw am docynnau gan bobl leol ac o gyn belled â Chanada a’r Unol Daleithiau, maen nhw i gyd wedi’u gwerthu mewn munudau. Mae datblygu’r Kop eiconig wedi’i brysuro i ddarparu ar gyfer y galw hwn.

Er gwaethaf hyn oll, dyrchafiad yn ôl i’r gynghrair pêl-droed fu’r flaenoriaeth erioed a, hei lwc, rydyn ni ar y trywydd iawn i wneud hyn. Dros y 35 mlynedd dwi wedi bod yn berchen ar docyn tymor, dwi erioed wedi teimlo’r fath wefr o gwmpas y dref (alla i ddim ei galw’n ddinas). Mae cefnogwyr o bell ac agos, hen a newydd, yn dod i Wrecsam o bob rhan o’r byd. Erbyn hyn mae hi bron yn arferol clywed acenion Canada ac America yn y Turf ac yn yr eisteddleoedd. Y penwythnos diwethaf, roedd actor arall o Hollywood yn bresennol hefyd, Will Ferrell (ydw i newydd ddweud hynny?).
Mae'r dyddiau pan allech chi gerdded i mewn i siop y clwb unrhyw bryd a phrynu crys y clwb wedi hen fynd – mae dros 23,000 wedi’u gwerthu y tymor hwn yn unig ac yn gwerthu rŵan ar e-bay am rai cannoedd o bunnoedd. Mae’r dyddiau y gallech gerdded i flaen y bar i gael lluniaeth cyn y gêm neu hyd yn oed brynu tocynnau ar gyfer gemau oddi cartref hefyd wedi hen fynd. Roeddwn yn cymryd y cyfan yn ganiataol cyn i’r perchnogion newydd brynu’r clwb. Ond, y naill ffordd neu'r llall, perchnogion o Hollywood ai peidio, mae ambell beth heb newid o gwbl. Mae dilyn Wrecsam i mi yn fwy nag angerdd, mae’n ffordd o fyw a byddaf yno hyd ddiwedd fy oes.



*Jason Jones, yn y llun gyda’i wraig, Julie*

# Ysgol Bryn Clwyd

**Y Babanod:** Y stori draddodiadol yn wythnos cyntaf mis Chwefror oedd y Dyn Bach Sinsir. Roedd y plant wrth eu bodd yn pobi dynion bach sinsir a'u haddurno, ond roedd eu bwyta'n well o lawer!





Y stori yn ystod yr ail wythnos oedd Elen benfelen a'r tair arth. Mwynhaodd y plant wneud eu harth eu hunain!

A stori olaf yr hanner tymor oedd y Tri Mochyn Bach ac adeiladodd y plant dai i'r moch bach.

Hefyd buon nhw wrthi'n gwneud siartiau bar o'u hoff straeon ac ymarfer ysgrifennu rhifau.




**Y dosbarth iau:** Fe wnaethon nhw gacennau lwc Tsieina ar gyfer gwledd blwyddyn newydd Tiseina. Y stori yw, po fwyaf y bydd y gacen yn codi, y mwyaf llewyrchus y bydd eich blwyddyn newydd. Mae'r plant yn hynod falch o ddweud bod eu cacennau wedi codi'n dda!



Un testun yn ystod y mis oedd dyfeisiadau o Tsieina, gan ddechrau gyda phapur. Cafodd y disgyblion gyfle i wneud eu papur eu hunain a gwneud profion gwahanol ar fathau gwahanol o bapur.



# Ysgol Bryn Clwyd

Wedyn fe ddysgon nhw am ddyfeisiadau hynafol o Tsieina, gan gynnwys cwmpawd sy'n arnofio, cwmpas crog a'r cloc dŵr. Gwnaeth y disgyblion eu fersiynau eu hunain o'r dyfeisiau hyn ac ymchwiliadau gwyddonol i'r hyn sy'n effeithio ar sut maen nhw'n gweithio.



*Gwneud cwmpawd*

Yn sgil cais gan gyngor yr ysgol am ragor o adnoddau i'r cae chwarae, mae Mr Jones wedi adeiladu storfa fechan ar y buarth i gadw'r offer sydd wedi'u harchebu a'u danfon i'r ysgol. Hefyd mae ffens newydd wedi'i gosod o gwmpas ffiniau'r ysgol.

Pan fydd y tywydd yn gwella, bydd hen ardal yr ardd yn cael ei hailddatblygu fel lle i'r plant adeg egwyl, ac fel ardal gwersi awyr agored. Cysylltwch â'r ysgol os ydych chi'n gallu helpu pan fydd y gwaith yma yn dechrau – bydden ni'n gwerthfawrogi hyn yn fawr.

## Little Acorns

Erbyn hyn mae'n bosibl cysylltu â Little Acorns yn uniongyrchol ar 01824 790741. Mae ar agor o 8 y bore tan 5.15 y prynhawn o ddydd Llun tan ddydd Gwener.



Ddiwedd mis Ionawr, cafodd yr ysgol loddest Tsieineaidd i ddathlu blwyddyn newydd Tsieina. Cafodd y plant gyfle i flasu rholiau llysiau, nwdls gyda llysiau wedi'u tro ffio a saws melys a sur, cracers corgymachiaid ac wrth gwrs, cacennau lwcus Dosbarth Iau.



# Hanesion Hazel

Mis Mawrth ydi mis meteorolegol cynta'r Gwanwyn; mae'n adeg cyhydnos y Gwanwyn hefyd. Mae cân yr adar ym mhobman, a'r cynffonnau ŵyn bach fel taseli aur – arwyddion bod y Gwanwyn ar y gorwel, a bod hi'n bryd meddwl am y Glanhau Gwanwyn.

Mae gen i wir angen clirio cypyrdde'r gegin; dydi o'n rhyfeddol faint o stwff sy'n gallu llercian yng nghefn cypyrdde! Mi ffeindiwch chi ryw dun pwdin reis wedi pasio'i ddyddiad bwyta, neu gawl, neu hen jam cartre' sy wedi troi'n siwgwr. Mae gen i hefyd lawer o bethe 'rhag ofn' – yr hen bercoladur coffi, y tostiwr brechdane a llestri a wnes i rioed eu defnyddio.

Oeddech chi'n gwybod mai o 17eg o Fawrth hyd at 2il o Ebrill ydi'r amser swyddogol i Sbring Clîn y Deyrnas Unedig? Mae'r dyddiadau yma wedi'u clustnodi ers wyth mlynedd bellach ac yn rhan o ymgyrch blynyddol Cadw Prydain yn Daclus. Felly bydd sbwriel wedi ei hel a'i ailgylchu, gobeithio. Os mai dim ond ychydig bach o sbwriel fyddwch chi wedi ei glirio, bydd hynny'n eich gwneud chi deimlo'n ysgafnach eich meddwl a'ch hadfywio.

Felly, yn ôl i'r glanhau, a chael gwared ar lwch yn enwedig. Y dyddie yma, mae'r haul yn isel ac yn disgleirio ar bob gwe pry-cop rydw i wedi'i fethu. Mae stribedi o'r we yn hongian o'r distie ac yn casglu unrhyw lwch o gwmpas. Mae pryfed cop wrth gwrs yn gweu eu gwe i ddal eu prae, ond bydd sawl gwe pry cop wedi ei adael a'r pry cop wedi mynd i rywle gwell. Gan nad ydw i'n hoff iawn o uchder nac ysgolion, mae gen i ddwster plu â handlen hir, sy'n berffeth i'r gwaith. Ei unig fai ydi bod y cŵn yn meddwl mai anghenfil o blu ydi o, ac maen nhw wrthi'n ymosod arno os daw o i'w cyfeiriad – gallwch weld y mwynhad ar eu gwynebau pan fydd un bluen fach wedi disgyn o'r anghenfil!

Y gwaith mwya diflas yn fy ngolwg i ydi glanhau ffenestri. Pam, tybed? I mi, mae o i'w weld yn waith anodd iawn. Eto, mae ffenestri glân, newydd eu glanhau yn gadael mwy o oleuni naturiol i mewn. Mi fyddai i'n defnyddio naw rhan o ddŵr i un rhan o finegr, a'i chwistrellu efo hen botel wedi ei hailgylchu. Mae'n gweithio'n iawn, ond mae angen bôn braich, yn enwedig lle mae'r cŵn wedi bod yn rhwbio eu trwynau.

Gan fy mod yn byw mewn bwthyn ar ochor y ffordd, rydw i wedi cael sawl profiad go od. Y rhai mwya' cyffredin ydi pobol mewn ceir yn crafu'r wal – a deud nad oedden nhw wedi gweld y wal. Hefyd, combein yn mynd yn sownd yn ymyl – ond stori arall ydi honno.




Y digwyddiad rydw i'n ei gofio orau oedd un sawl blwyddyn yn ôl bellach. Roedd fy nghymydog ar y pryd wedi penderfynu clirio'r siediau ar ôl y gaeaf ac yn cario'r tail i'r cae ar draws y ffordd. Wrth adael y cae (chydig yn rhy gyflym am ei ginio efallai) roedd y chwalwr tail yn dal i chwalu'r tail ola'. Lle landiodd y tail 'te? Ia, rydech chi'n iawn – dros wal lân y bwthyn, a oedd wedi ei pheintio'n wyn. Wel am olwg, ac roedd y drewdod yn ych-a-fi. Mae'n anodd iawn glanhau tail gwartheg wedi sychu, felly roedd rhaid hurio peipen ddŵr gwasgedd uchel i'w lanhau. Mi gafodd y tŷ Lanhau Gwanwyn go iawn y flwyddyn honno. Hwyl fawr ar y Glanhau Gwanwyn.

**Hazel**

# Rysáit

**Cacen foron Ann Moore**
Digon i 8–12

Cynheswch y popty i 180 °C
Irwch dun pobi hirsgwar bas

**Cynhwysion:**
8 owns moron
Tun 400g pinafal wedi'i falu
8 owns hylif olew llysiau
10 owns siwgr brown meddal
4 wy
5 owns blaen plaen
5 owns blawd cyflawn
2 llwy de gwastad o soda pobi
2 llwy de gwastad o sinamon mâl
3 owns cnau Ffrengig mâl

**Topin:**
4 owns margarin caled
4 owns caws hufennog Philadelphia
8 owns siwgr eisin
Diferyn o rin fanila

Piliwch a gratiwch y moron. Draeniwch y sudd o'r pinafal.
Rhowch yr olew llysiau, y siwgr brown meddwl a'r wyau mewn powlen a'u troi â llwy bren.
Hidlwch y blawd plaen, y blawd cyflawn, y soda pobi a'r sinamon i'r cymysgedd.
Ychwanegwch y moron a'r cnau Ffrengig a'r pinafal a'u blendio gyda'i gilydd.
Tywalltwch y cymysgedd i'r tin a'i bobi am 45–60 munud.
Gadewch i'r gacen oeri yn y tin.

Ar gyfer y topin:
Cyfunwch y margarin â'r caws hufennog, yr eisin siwgr a'r diferyn o rin fanila.
Taenwch y topin dros y gacen a thaenwch y cnau Ffrengig mâl dros y cyfan.

*Jane Borthwick*


**Townsend Supplies**
Townsend, Denbigh Ll16 3AW
01745 814918

For all farmyard & agricultural accessories & building supplies

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

hg web designs
rydym ni'n creu... we create....
gwefannau - websites!
www.hgwebdesigns.co.uk
01678 520882
07984 511164
Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.
Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.
hannah@hgwebdesigns.co.uk

# Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan



Ar noson aeafol 18fed Ionawr, daeth dros 60 o aelodau a ffrindiau i Neuadd y Pentref i wrando ar Dr Shaun Evans yn traethu ar '*Hanes ac Arwyddocâd Ystadau Cymru*'.

Magwyd Shaun ar ystâd Mostyn, Sir Fflint, lle mae ei dad yn goedwigwr. Astudiodd Hanes yn Efrog, a thestun ei ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth oedd hunaniaeth dynastaidd teulu'r Mostyn yn y 16eg a'r 17eg ganrif. Yn 2015, fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru (SYYC) (canolfan ymchwil genedlaethol) Prifysgol Bangor, gyda chyfrifoldebau dros oruchwylio rheolaeth, cyfeiriad strategol a datblygiad deallusol y ganolfan ymchwil

Eglurodd sut y byddai'r ystadau'n cael effaith a dylanwad dwfn ar eu cymunedau lleol yng Nghymru, hyd at eu chwalfa a'u tranc ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Roeddynt yn rhan annatod o fywyd cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol, economaidd a diwydiannol yng Nghymru.

Soniodd am dreftadaeth, perthynas cymdeithasol, llinach a materion ynglŷn â statws ac awdurdod yng Nghymru. Soniodd hefyd am hunaniaeth yr Uchelwyr, perthynas tirfeddianwyr-tenant ac ystadau tiriog, gan roi enghreifftiau o hanesion lleol o bapurau newydd yr adeg honno.

Cafwyd hanes rhai ystadau yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, e.e. ystadau Cerrigllwydion, Lleweni a Glan y Wern a chyfeiriwyd at ystadau Pentre Mawr, Rhug, Mostyn a Phenrhyn. Roedd arddangosfa wedi ei pharatoi hefyd o gatalogau gwerthiant ystadau Cerrigllwydion, Lleweni, Glan y Wern, Ystrad, Pool Parc, Bodelwyddan a Chastell Gwrych.

Mae 'na nifer o brosiectau gan fyfyrwyr ymchwil ar gyfer doethuriaeth ar y gweill yn y Sefydliad a fydd yn fodd i gynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth am hanesion, diwylliannau a thiriogaethau Cymru e.e. '*Of Great Kindred and Alliance*': statws a hunaniaeth teulu Salusbury Rhug a Bachymbyd, c.1475 – c.1660 a *Projection and Perception*: Hunaniaeth y teulu Wyniaid Gwydr.

Gallwch gael y newyddion diweddaraf a digwyddiadau'r dyfodol o SYYC drwy ymuno â'i rhestr bostio drwy e-bostio eich manylion at iswe@bangor.ac.uk. Neu drwy edrych ar eu sianelau cyfryngau cymdeithasol:

Twitter: https://twitter.com/ystadaucymru

Facebook: https://www.facebook.com/YstadauCymru.

Croeso cynnes i bawb i gyfarfodydd y gymdeithas, gydag aelodau'n talu £6 am 4 cyfarfod yn rhaglen y tymor, ac ymwelwyr yn talu £3 am bob cyfarfod. Gweinir lluniaeth ysgafn ar ddiwedd pob cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf Nos Fercher, 15 Mawrth am 7.30pm yn y Neuadd pan fydd Mr Paul Broadbent yn siarad am *'Syr Herbert Lewis, Caerwys, AS Rhyddfrydol a chyfoeswr David Lloyd George; cefnogwr addysg a Chymru Fydd.'*

Am fanylion pellach, ymholiadau, i ymuno â'r gymdeithas, neu wirfoddoli i fod yn rhan o'r prosiectau, e-bostiwch y gymdeithas os gwelwch yn dda ar

**llangwyfanhistory@hotmail.com**.




*Catalogau ystadau ac arwerthiannau – rhai o'r deunyddiau yn yr arddangosfa*

# Gair gan yr offeiriad

Daw'r addewid ym mis Mawrth am dywydd gwell a'r llawenydd blynyddol o'r holl newidiadau a welwn ym myd natur yma yn mhrydferthwch Gogledd Cymru. Mae'n syndod faint o newid sy'n digwydd o'n cwmpas ar ein taith drwy'r tymhorau. Coed yn bwrw eu dail, adar yn mudo a chymaint yn mynd i drwmgwsg bob Hydref wrth nesáu at y gaeaf ac yn deffro eto yn y Gwanwyn. Rydyn ni fel pobl yn newid bob blwyddyn hefyd, wrth i ni fynd drwy gamau gwahanol bywyd. Rydyn ni'n cael ein gwahodd, fel cristnogion i ddathlu newid ynom ni'n hunain, nid dim ond ei gofleidio. Mae Iesu yn ein harwain ni i'r potensial llawn yn y greadigaeth ryfeddol hon.

Y mis diwethaf, roeddwn i'n ffodus iawn i gyfarfod ag awdur sydd wedi fy helpu i yn fy mywyd gweddïo ers blynyddoedd lawer. Mae wedi bod yn ysbrydoli gweddïo cyhoeddus sydd wedi bendithio eraill yn enw Duw.

Daeth John Pritchard i Ganolfan St Beuno ym mis Chwefror i helpu nifer ohonom ni i baratoi ar gyfer y Grawys. Roedd hi'n bleser mawr i mi gyfarfod dilynwr Iesu a oedd wedi fy helpu gyda fy ngweddïo drwy ei waith ysgrifenedig. Llofnododd un o'i lyfrau roeddwn i wedi bod yn ei ddarllen ers 2010 ac wedi'i rannu ag eraill.

Ceisiodd sawl un ohonom ni o ogledd esgobaeth Llanelwy ateb y cwestiwn dwys a phryfoclyd mae Iesu yn gofyn i eraill yn yr ysgrythurau: “Am beth rwyt ti'n chwilio?”, “Pwy rwyt ti'n ei ddweud ydw i?”, “Onid oes neb wedi dy gondemnio?”, ac “A wyt ti yn fy ngharu i?” Ni oedd y cyntaf i ddefnyddio ystafell gynadledda newydd yn y ganolfan ac roedd trysorau'r dydd yn sylweddol iawn.

Ni yw'r bobl sydd wedi dewis ildio i ddirgelwch anferth a phleser di-ben-draw dilyn Iesu. Mae chwe wythnos y Grawys, fel pedair wythnos Adfent, yn gyfnod pan mae gennym amser, amser clir a phenodol, i ganolbwyntio o ddifrif ar dreulio amser gyda Duw. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rydym yn darllen mwy ar ein Beibl, yn gweddïo mwy, ac mae sawl un ohonom ni yn darllen darn bob dydd er mwyn meddwl amdano a'i ystyried. Mae rhai'n dewis gwrthod pethau neu rywbeth maen nhw'n ei hoffi ond nad yw'n gwneud lles iddyn nhw. Beth bynnag ydy o, neu hyd yn oed yr holl bethau hyn a rhagor, rydyn ni'n gofyn i Dduw weithio ynom ni a'n trawsnewid ni ar ein taith tuag at y Pasg.

Rydym yn cofio am ennyd ym mywyd Crist mewn eglwysi ledled y byd ar y dydd Sul cyn y Grawys, gan ddechrau ddydd Mercher y Lludw. Y Gweddnewidiad yw'r enw ar yr ennyd hon, a'r adeg pan oedd Iesu yn disgleirio ar fynydd a phobl o'r nefoedd yno gydag o, sef Moses ac Elias. Roedd hon yn ennyd debyg i'r un a brofais ar y diwrnod gyda'r Esgob John Pritchard: pan ddaeth Teyrnas Nefoedd, y geiriau i ddisgrifio'r hyn a elwir fel arall yn nefoedd, i'n bywyd pob dydd. Mae'r ennyd hon ar fynydd Tabor yn rhagweld yr atgyfodiad yng Ngolgotha, o farw ar y groes i atgyfodi – yr hyn rydym ni'n dathlu adeg y Pasg. Dwy ennyd o olau a hyfrydwch sydd o boptu chwe wythnos y Grawys.

Y gair Groeg am weddnewidiad yw *metamorphosis*. Yn debyg i lindys yn troi'n bili-palod, yn y bywyd heriol hwn. Rydym yn cael ein gwahodd i newid er gwell a bod wedi'n bendithio er mwyn i ni fendithio eraill. Bendith arnoch chi drwy gydol mis Mawrth.

**Martin Pritchard,**
**Offeiriad ardal genhadu Dinbych**

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Llwybr arfordir Cymru – darn bach arall ohono

Doeddwn i heb wneud rhyw lawer dros y Gaeaf, felly dyma benderfynu dod allan o dan fy ngharreg a mynd am dro unwaith eto.

Mi wnes i ddechrau fy nheithiau, sawl blwyddyn yn ôl bellach, ym Mhorthaethwy a chrwydro o gwmpas yr ynys, yn ôl i Borthaethwy. Dros y bont a throi i'r dde tuag at Gaernarfon a cherdded llwybr hynod drawiadol arfordir Llŷn ac yn y diwedd cyrraedd Port. Am ryw reswm mi wnes i benderfynu base'n braf gweld be oedd gan Harlech i'w gynnig – felly Port i Harlech amdani, neu i fod yn gywir, Harlech i Port.

Felly ar fore dydd Gwener ganol Chwefror dyma fi off. Ond och a gwae, ar ôl cyrraedd un o'm hoff lefydd i ddreifio – y Migneint, dyma daro'r niwl mwyaf trwchus i mi ei weld ers blynyddoedd – ddim ers i mi fynd dros Fwlch yr Oernant yn fy MG bach ers talwm a gorfod agor y ffenest, rhoi fy mhen allan a dilyn y llinell wen ganol y ffordd. Am resymau amlwg, roeddwn yn teimlo'n fwy diogel yn dilyn y llinell ganol ffordd yn hytrach na'r un solat ar yr ochr chwith i mi.

Ta waeth, dyma gyrraedd Port – dwi'n ddiarhebol o anobeithiol am ddarllen amserlen bysiau – ond yn ôl Google, pe byddwn i'r tu allan i'r Australia Arms am 9:56 mi fyddai yna fws rhif 37 yn ymddangos. Wir i chi, a, 9.56 ar ei ben fe ymddangosodd y bws ac allan â'r *bus pass* – dwi wedi arbed ffortiwn dros y blynyddoedd trwy ei ddefnyddio.

Taith hyfryd iawn i Harlech – yn tydi'n braf yn gefn bws gweld tros y gwrychoedd i gyd? Ac roedd yr arosfan bws yn union ar ddechrau fy siwrnai 12 milltir yn ôl i Port. Dwi fel arfer yn bwrw golwg tros y gorwel i chwilio am unrhyw dirnod sylweddol – wel, y tu ôl i mi roedd castell Harlech sydd wedi bod yna ers 1282 a'r ochr arall i afon Dwyryd roedd yna adeilad sylweddol efo nodweddion hynod – Travelodge Port – sydd yna ers y flwyddyn ddiwetha. Ond dim bwys, roedd yn rhywbeth i anelu amdano.

Mae rhan gynta'r daith yn syml iawn yn dilyn moryd y Ddwyryd i fyny at Bont Briwet. Yn fuan iawn mi wnes i sylweddoli 'mod i'n cerdded ar hyd morglawdd a gafodd ei adeiladu 1880 i adennill tir o'r môr – slabiau enfawr o lechi wedi eu gosod yn fflat a bwnd o bridd drostyn nhw. Mae'n bedair milltir o hyd, o Harlech i Bont Briwet. Cafodd y cynllun ei drafod a'i gytuno gan bobl leol yn nhafarn Y Ship Aground yn Nhalsarnau yn 1880 – cynllun i adennill tir o'r môr ac wedyn creu ffordd o Dalsarnau i Harlech. Wel mae wedi gweithio'n iawn, heblaw am ddau lanw aruthrol 1927 a 1936. Mae'r dafarn yn dal i fod yno hyd heddiw ac er i mi ei phasio wnes i ddim mynd mewn iddi. Dychmygwch 1880 a chriw o bobl yn creu cynllun morglawdd ar gefn mat cwrw o beth!

Wrth ddilyn y llwybr a fyny rhyw fryncyn reit serth, mi ddowch ar draws eglwys hynafol Llanfihangel y Traethau i'r de o bentref Ynys. Mae'n eglwys bererinion swyddogol ac mae'r llyfr ymwelwyr yn dyst bod ymwelwyr o bob man yn ymweld â'r eglwys ac yn rheolaidd iawn. Tydi'r eglwys yn ddim byd tebyg i'r un gwreiddiol sy'n dyddio'n ôl i'r unfed ganrif ar ddeg ac fel sawl eglwys, mae wedi ei hailadeiladu sawl gwaith dros y blynyddoedd. Mae'n amlwg mai eglwys forwrol yw hon gan fod chwech ar hugain o forwyr a phedwar ar ddeg o gapteiniaid llong wedi eu claddu yno.

Roedd yna fainc yno efo golygfeydd dros y foryd ac yno bues i am hanner awr, dwi'n siŵr, yn cael fy nghinio – ac yn cyfrif fy mendithion ar yr un pryd.

Os gwnewch chi edrych ar draws y Ddwyryd, mi welwch chi Ynys Gifftan. Dim ond am ddwy awr mewn llanw isel mae'n bosib mynd iddi a chan dwi'n dallt dim am amserlen bws a llai byth am amserlen llanw – o'i gael yn anghywir mi fuaswn yno dros nos – mi wnes i osgoi'r demtasiwn i fynd yno. Ymddengys mai rhodd oedd yr ynys gan y Frenhines Ann i Arglwydd Harlech yn 1700 rywbryd – dyna darddiad yr enw mae'n debyg – Rhodd Ann. Un awgrym arall, efallai'n fwy credadwy, yw bod yr enw'n dod o'r gair Saesneg *skiff*. Dwi'n bwriadu mynd yn ôl yno os oes gan rywun

# Llwybr arfordir Cymru – darn bach arall ohono

awydd rhannu'r wefr ac yn medru darllen amserlen llanw, wrth gwrs.



Wrth ddal i fynd roeddwn yn edrych mlaen at weld Pont Briwet – roedd yna gymaint o sôn wedi bod amdani wrth iddi gael ei hailadeiladu.

Traphont bren oedd y bont wreiddiol ddigon cyffredin yn ystod y cyfnod yna. Cafodd ei hadeiladu yn bennaf ar gyfer y rheilffordd a cherddwyr i safio iddyn nhw orfod croesi'r Foryd yn Nhraeth Mawr a Thraeth Bach – neu orfod mynd 13 milltir drwy Faentwrog, wrth gwrs. Yn anffodus fe aeth y contractwr gwreiddiol, Thomas Savin, yn fethdalwr yn 1866 ond llwyddwyd i'w hagor yn 1867.



Fe weithiodd yn iawn ond doedd y strwythur ddim yn addas ar gyfer trenau heddiw, felly dechreuwyd adeiladu pont newydd ym mis Mawrth 2013. Y bwriad oedd cadw'r hen bont fel atyniad ac i gerddwyr, ond yn anffodus roedd gwaith gosod sylfeini'r bont newydd wedi effeithio ar sylfeini'r draphont, felly doedd dim dewis ond ei dymchwel. Cafodd y gwaith ei gwblhau ym mis Tachwedd 2015.

Ymlaen drwy bentre Penrhyn wedyn ac anelu am Port – mae'r llwybr yn mynd a chi drwy dir Portmeirion. Mae'n debyg bod yna olygfeydd hyfryd o'r Foryd o adfeilion Castell Deudraeth, ond i fod yn onest mi wnes i aros ar y ffordd fawr – roeddwn wedi blino, dyna'r cwbl. Mi wna i fynd yn ôl – ond wrth gwrs roedd rhaid i mi gerdded ar draws y Cob sydd â chysylltiadau clòs â Llangwyfan, wrth gwrs.

Cafodd ei chwblhau yn 1811 gan yr enwog William Alexander Maddocks. Er mai aelod seneddol Sir Lincoln oedd y gŵr bonheddig, roedd ei deulu yn berchen Fron Yw, Llangwyfan, ac mae yna gofeb yn Eglwys Llandyrnog i gadarnhau hynny.

Fe brynodd y gŵr dipyn o dir o gwmpas Traeth Mawr a chyflogi 900 o bobl i adeiladu'r Cob efo cymorth 700 o geffylau. Mi wnaeth o adennill talp helaeth o dir i'w ffermio ac wrth gwrs adeiladu'r Cob i'r tren gael croesi. Roedd ganddo'i lygad ar lawer mwy o dir ac yn gobeithio datblygu porthladd yn Nefyn i gychod gael croesi i Ddulyn. Yn anffodus ail gafodd o'r tro yma – cafodd ei guro gan ŵr nid anenwog arall ddaru sicrhau mai Caergybi a orfu.

Oddi ar y Cob rŵan ac roedd y Travelodge ar y dde i mi – pen fy nhaith, fwy neu lai . Pasio'r Australia Arms a mynd am y car roeddwn wedi ei barcio y tu allan i gartre henoed mae fy nghyflogwyr yn berchen arno. Codi llaw ar y trigolion oedd yn y lolfa – i fy atgoffa fy hun pam dwi'n gwneud y pethau 'ma. Yn syml iawn, am fy mod yn gallu.

Reit, ble nesa? Maen nhw'n dweud bod y darn rhwng Harlech a Bermo yn ddifyr – am resymau gwahanol – mae'r llwybr yn croesi traeth sydd wedi ei glustnodi ar gyfer noethlymunwyr. Gobeithio wir na wela i neb dwi'n 'nabod.

Hwyl ar y crwydro.

*Bryn Davies*

# Capel y Dyffryn

Yn oedfa'r fro ym mis Chwefror casglwyd £241 tuag at apêl daeargrwyn Twrcia a Syria. Diolch i bawb a gyfrannodd.

***Y Gymdeithas*** Nos Lun 6 Chwefror cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Rhys Davies a'r teulu, Dregoch Isa ar sut y datblygwyd y Winllan yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan ennill gwobrau am y gwinoedd gorau yng Nghymru y llynedd. Diddorol dros ben.

Nos Lun 21 Chwefror croesawyd y ffotograffydd medrus Llion Griffiths, Llanfair Talhaearn i'r Gymdeithas. Eglurodd fel y cychwynnodd dynnu lluniau'r dirwedd flynyddoedd yn ôl wrth fynd i wahanol fannau ar y beic. Yn fuan, roedd pobl yn gofyn am brynu ei luniau arbennig. Cafodd lwyddiant ysgubol a dod yn un o'r deg uchaf yn un o gystadlaethau pwysicaf i ffotograffwyr, sef Cystadleuaeth Tirlun y Flwyddyn y DU, sy'n denu dros gan mil o gystadleuwyr. Erbyn hyn, mae'r busnes wedi tyfu ac mae'n tynnu lluniau priodasau, hysbysebu i gwmnïau ceir, calendrau, cynnal gweithdai ffotograffiaeth a llawer mwy, yn ogystal â gweithio i gwmni *Reflexallen*, Bodelwyddan! Noson ddiddorol dros ben.




*Richard Davies, cadeirydd y noson (chwith) gyda Llion Griffiths*

**Gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| 5 Mawrth | 11.00 | Parch. Gwenda Richards |
| 12 Mawrth | 11.00 | Parch. Andras Iago (cymun) |
| 19 Mawrth | **5.00** | Parch. Euron Hughes |
| 26 Mawrth | 9.45 | Mrs Gwenda Humphreys |

# Mis Mawrth – mis prysur!

1: Dydd Gŵyl Dewi – wrth gwrs.

2, 3 a 5: Gŵyl Mabsant Santes Non – mam Dewi Sant.

4: Diwrnod Rhyngwladol Cancr – y prif ddiwrnod rhyngwladol i godi ymwybyddiaeth o'r clefyd.

8: Diwrnod Rhyngwladol y Merched – cofleidio tegwch yw thema 2023.

11: Diwrnod rhyngwladol diwylliant, heddwch, deialog a ffilmiau'r Mwslimiaid: nod hwn yw helpu pobl i ddeall Islam yn well.

14: Diwrnod Pi – sy'n dathlu'r symbol $\pi$ a ddefnyddir mewn mathemateg. Y mathemategydd o Fôn, William Jones, a ddefnyddiodd y symbol gyntaf ar ddechrau'r 18fed ganrif.

17: Gŵyl Sant Padrig – mae rhai'n dweud ei fod wedi'i eni yng Nghymru, ond mae hyn yn annhebygol.

20: Diwrnod Rhyngwladol Hapusrwydd – ei nod yw gwneud i bobl ledled y byd ddeall pwysigrwydd hapusrwydd yn eu bywydau.

22: Diwrnod Dŵr y Byd: yn annog gweithredu i wella'r argyfwng dŵr a charthffosiaeth.

23: Diwrnod Meteoroleg y Byd – mae ei themâu yn dewis yn ymwneud â'r tywydd, yr hinsawdd neu ddŵr.

27: Diwrnod rhyngwladol y theatr – y digwyddiad pwysicaf yn hwn yw neges ar thema theatr a diwylliant heddwch gan rywun byd-enwog.

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.

# Dewch i gyfarfod â'ch Cynghorydd Cymuned

Fy enw ydi Thomas Merfyn Parry, a'r enw Thomas ar ôl fy nhad, Tom Parry, Dre Goch, Bodfari. Roeddwn yn byw adre gyda 'nhad, mam a'm brawd Emyr yn Nhre Goch Ganol tan oeddwn i'n laslanc. Roedd Emyr a minnau'n mynychu Ysgol Gynradd Llandyrnog i gychwyn, ond symudais i Ysgol Gymraeg Dinbych yng Nghapel Mawr, gydag Emyr yn aros yn Llandyrnog. Ym mlwyddyn olaf fy addysg gynradd, adeiladwyd Ysgol Twm o'r Nant a symudwyd y disgyblion o Gapel Mawr i'r ysgol fodern hon. Mi es i Ysgol Glan Clwyd ac yna i Goleg Llysfasi cyn gweithio ar fferm ar gyrion Dinbych. Bûm yn gweithio i Gymdeithas Cyfanwerthu Gydweithredol yn Hufenfa Llandyrnog ac i 'nhad ar y fferm adre yn Dre Goch.

Yn 1983, mi es i Goleg Amaethyddol Brenhinol yn *Cirencester* i astudio tyfu cnydau, ac yna mynd i weithio at Hodges & Moss, cemegwyr amaethyddol yn yr Amwythig, ac yn eu storfa yn yr Wyddgrug. Yn Ionawr 1986, symudais at y cwmni rydw i'n gweithio iddo heddiw, sef *County Crops*, rhan o'r *Grŵp ProCam*. Rydw i'n agronomegydd, a 'ngwaith i ydi helpu ffermwyr a rhai sy'n tyfu cnydau i'w gwella a chael y gorau ohonyn nhw, mewn ffordd draddodiadol neu organig. Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar gynaliadwyedd pridd.

Mae gen i hefyd fy nghwmni fy hun o'r enw *Biofert Wales Ltd*, sy'n trin gweddillion treulio anaerobig ar safle yn y Waen, Llanelwy. Dyma ble mae'r holl wastraff bwyd o'ch bin oren chi'n mynd. Mae'r nwy methan yn cael ei echdynnu o'r bwyd ac yn cael ei drawsnewid i drydan, ac mae'r gweddillion yn cael ei daenu ar y tir fel gwrtaith.

Mae gen i gysylltiad cryf â Llandyrnog gan fy mod wedi tyfu fyny yma. Roeddwn i'n aelod o Glwb Ieuenctid Llandyrnog, Clwb Bechgyn Llandyrnog, a hefyd yn rhedeg Clwb Ffermwyr Ifanc Llandyrnog am gyfnod byr. Roedd digon i'w wneud yn Llandyrnog!

Yn 1998, prynais Dafarn *Y Golden Lion* a'i foderneiddio. Bu'n rhan fawr o'm bywyd, ac rydw i'n ddiolchgar am y gefnogaeth dros y blynyddoedd. Mae'n siŵr eich bod yn gwybod mai Samantha a Mark sy yno rŵan, a gobeithio y gwnewch eu cefnogi, os gwelwch yn dda!

Prynodd Hilary, ei chwaer, Alex, a minnau y Ceffyl Gwyn yn 2001, ac agor y drysau yn 2002 yn dilyn adnewyddiad llwyr. Cawsom ni ddau seléb lleol i dorri'r rhuban, Emlyn Davies ac Emlyn Bach. Roedd y Ceffyl Gwyn yn boblogaidd iawn ac yn adnabyddus fel lle bwyta da – roedd gennym ni dîm ardderchog yn gweithio yno. Roedd yn arw gennym orfod cau a gwerthu yn dilyn Cofid, ond roedd yn gyfle i Hilary ymddeol. Yn anffodus dydi o ddim yn dafarn bellach, ond yn gartref i deulu newydd hyfryd yn y pentre.

Rydw i wedi bod yn Gynghorydd Cymunedol Llandyrnog ers 2008, a rhoddais fy enw ymlaen fel Cynghorydd Sir ar gyfer Ward Llandyrnog yn etholiadau 2012. Rydw'n awr ar fy nhrydydd tymor yn y swydd. Yr hyn rydw i'n ei fwynhau fwyaf yn fy rôl fel Cynghorydd ydi fy mod yn ymwneud â gweithgareddau sirol a chymunedol ac yn medru helpu a chynghori eraill o fewn y gymuned. Rydw i'n teimlo bod rhai ceisiadau yn heriol, ond gwnaf fy ngorau i ddatrys holl broblemau sy'n codi, a hefyd ceisio ymateb i unrhyw ymholiad neu gwestiwn cyn gynted â phosib.


**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*


**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Chwefror Cyngor Cymuned Llandyrnog

⇒ Rhoddodd Philip Burrows, Swyddogol Digidol Cyngor Sir Ddinbych, fraslun o'r sefyllfa yn Llandyrnog. Nid yw Llandyrnog yn rhan o unrhyw raglen uwchraddio fawr gan Openreach. Mae ei gynlluniau presennol yn weithredol tan fis Rhagfyr 2026, ond efallai bydd ambell ardal yn cael ei huwchraddio heb i Openreach gyhoeddi hynny.

Mae 479 cartre yn yr ardal, ac mae gan 179 ohonyn nhw FTP – *fibre to the property*. Ond mae ambell gartre i fod i gael ei uwchraddio y flwyddyn nesa a bydd Philip yn anfon manylion yr 88 o gartrefi sydd i fod i gael eu huwchraddio. Bydd BT yn methu uwchraddio ambell gartre, am resymau gwahanol. Mae croeso i chi gysylltu â Mr Burrows ag unrhyw gwestiwn ar philip.burrows@denbighshire.gov.uk neu 01824 706116.

⇒ Bu damwain ger cornel Green Farm tua 10 Chwefror. Mae'n bosib mai hon yw'r chweched ddamwain yn ystod y deuddeg mis diwetha ar y rhan arbennig honno o'r ffordd. Penderfynwyd holi Heddlu Gogledd Cymru a oes cofnod o'r digwyddiadau hyn. Os oes, y bwriad yw eu cyflwyno i'r Cygnor Sir i barhau'r drafodaeth am ffordd i ddelio â cherbydau'n teithio'n gyflymach na 40mya.

⇒ Mae cynghorau cymuned cyfagos, gan gynnwys Bodfari, Tremeirchion, Cwm a'r Waen, a Llanarmon yn chwilio am glercod.

⇒ Mae'r swyddog achos yn disgwyl rhagor o wybodaeth am y datblygiad wrth gefn y Kinmel Arms.

⇒ Mae caniatâd wedi'i roi i godi podiau gwyliau yng Nghae'r Fedwen.

⇒ Cafwyd cais cynllunio i godi deuddeg pod gwyliau a gwaith trin carthion ar dir Fferm Llangwyfan. Er bod y cais yn groes i bolisi cynllun datblygu lleol PSE 12, byddai'r datblygiad yn welliant sylweddol ar yr adeiladau presennol. Fodd bynnag, roedd amheuon am effaith y traffig ychwanegol ar y lôn at y safle ac ar eglwys Llangwyfan, a goleuadau'r safle yn mynd i fod mor amlwg.

⇒ Mae'r Cyngor Sir wedi asesu ardal Fforddlas ac nid yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer bin sbwriel.

⇒ Diolchwyd i'r Cyngor Sir am lanhau'r palmant rhwng yr ysgol a'r pentre.

⇒ Mae'r Cynghorydd Thomas wedi penderfynu rhoi'r gorau i fod yn gynghorydd. Gan nad oedd unrhyw gais drwy'r cyngor Sir am etholiad, penderfynwyd mynd ati i gyfethol cynghorydd yn ei le.

⇒ Rhoddodd y Cynghorydd Morris y newyddion ynghylch project y siop – mae angen ategu'r arian sydd eisoes wedi'i glustnodi gyda grantiau ychwanegol ac arian preifat drwy werthu cyfranddaliadau. Mae llawer iawn o waith yn digwydd yn dawel bach a fydd yn rhoi canlyniad cadarnhaol yn y dyfodol agos.

⇒ Penderfynwyd ystyried y gost o roi rhodd i bob plentyn yn y pentref i goffáu coroni'r Brenin Charles.

⇒ Penderfynwyd trefnu helfa sbwriel cyn pen ychydig fisoedd, gyda chymorth Cadwch Gymru'n Daclus.

# Sefydliad y Merched

Daeth deg aelod o Sefydliad y Merched a gwesteion at ei gilydd ym mis Chwefror. Cytunwyd ar ambell eitem ar yr agenda, ac wedyn cafwyd sgwrs ysgafn am y newidiadau ym myd addysg, a phaned a bisgedi.

Wedyn cafodd dau dîm hwyl ar yr her estyn y pompom a gêm ddisgrifio. Yr enillydd oedd Gwen. Cawson ni hwyl garw mewn cwmni da ac mae croeso I bawb, felly dewch aton ni. Mae'r cyfarfodydd nos Fawrth cynta'r mis, o 7 tan 9 o'r gloch yn neuadd y pentre.